# Gweithredu rhaglenni ar gyfer pysgod sy’n rheoli triniaethau ac yn cynnal eu hiechyd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithredu rhaglenni ar gyfer pysgod sy’n rheoli triniaethau ac yn cynnal eu hiechyd. Mae’n gysylltiedig â chynnal iechyd pysgod, trwy adnabod arwyddion a symptomau abnormaleddau, i gynorthwyo a hyrwyddo triniaeth pysgod trwy raglen driniaeth.

I’w chyflawni, mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn gallu sefydlu rhaglenni cynnal iechyd, cynnal eu gweithrediad effeithiol a rheoli rhaglenni triniaeth, fel y mae meddyg yn eu rhagnodi.

Mae’r safon hon yn gofyn eich bod yn gwneud gwaith yn ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion iechyd a diogelwch perthnasol, a’ch bod yn gweithio i gynnal bioddiogelwch a lleihau tarfu amgylcheddol bob amser.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy’n rheoli cymhwyso’r safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad y bysgodfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyflawni gweithgareddau'n ddiogel i weithredu rhaglenni ar gyfer pysgod i reoli triniaethau a chynnal eu hiechyd, yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol
3. dewis, paratoi a chynnal a chadw cyfarpar i reoli triniaethau pysgod a chynnal eu hiechyd, i safon ofynnol y bysgodfa
4. gweithredu rhaglenni i reoli triniaethau a chynnal iechyd pysgod trwy gynnal amodau amgylcheddol a dwyseddau stocio mewn unedau cadw
5. gweithredu rhaglenni iechyd proffylactig i gynnal iechyd pysgod
6. adnabod afiechyd a symptomau abnormaledd mewn pysgod i gynorthwyo â diagnosis
7. gofyn am gyngor milfeddyg, lle y bo'n briodol, ar sail disgrifiad o symptomau
8. lle y bo'n briodol, rhoi gwybod i awdurdodau perthnasol am unrhyw glefydau pysgod hysbysadwy sy'n cael eu darganfod
9. gweithredu ar unwaith i leihau effaith bosibl argyfyngau iechyd pysgod
10. rheoli'r gwaith o baratoi triniaethau iechyd pysgod yn ôl dosys argymelledig, yn ôl cyfarwyddiadau'r milfeddyg
11. rhoi triniaethau iechyd i bysgod yn ôl dosys argymelledig, yn ôl cyfarwyddiadau'r milfeddyg
12. rheoli'r gwaith o roi triniaethau er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y stoc pysgod a'r amgylchedd
13. cymryd camau brys i gywiro unrhyw effeithiau andwyol y mae triniaethau'n eu hachosi i bysgod
14. rheoli gwaredu gwastraff, triniaethau pysgod heb eu defnyddio a thriniaethau pysgod wedi'u defnyddio, yn ddiogel ac yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol
15. monitro pysgod wedi'u trin er mwyn gwerthuso'u hadferiad ac effeithiolrwydd y triniaethau
16. cynnal cofnodion cywir o iechyd pysgod yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol perthnasol
17. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas wrth weithredu rhaglenni ar gyfer pysgod sy'n rheoli triniaethau ac yn cynnal eu hiechyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy’n rheoli rhaglenni cynnal iechyd a defnyddio triniaethau ar gyfer pysgod
2. pwysigrwydd defnyddio’r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir
3. y cyfarpar sy’n ofynnol i weithredu rhaglenni sy’n rheoli triniaethau pysgod ac yn cynnal eu hiechyd
4. pwysigrwydd gweithredu rhaglenni i bysgod sy’n berthnasol i’r triniaethau cywir
5. ymddygiad arferol pysgod iach a’r arwyddion o afiechyd neu effeithiau triniaethau
6. clefydau cyffredin ac achosion afiechyd yn y rhywogaethau pysgod sy’n cael eu ffermio
7. sut olwg sydd ar organau mewnol pysgod a sut gall clefyd newid eu golwg
8. pam mae’n hanfodol gweithredu ar unwaith os oes amheuaeth o glefydau pysgod hysbysadwy
9. sut i roi gwybod am glefydau pysgod hysbysadwy
10. sut caiff iechyd pysgod ei gynnal trwy gymhwyso technegau hwsmonaeth da
11. triniaethau iechyd proffylactig a’u cymhwysiad wrth gynnal iechyd pysgod
12. argyfyngau iechyd pysgod a sut mae’n bosibl cyfyngu eu heffaith ar stoc fferm bysgod
13. y triniaethau cyffredin a ddefnyddir i atal a gwella problemau iechyd mewn pysgod
14. cymhwyso triniaethau mewnol ac allanol pysgod yn gywir
15. cyfrifiadau dos a phwysigrwydd cywirdeb wrth baratoi triniaethau pysgod
16. gofynion rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH), a sut maent yn rheoli’r defnydd ar driniaethau pysgod
17. sut gall triniaethau pysgod effeithio ar stoc heblaw’r targed ac effeithio ar yr amgylchedd
18. sut i gyfrifo cyfnodau cadw o’r gadwyn fwyd
19. y rhesymau dros gadw cofnodion iechyd pysgod a phwysigrwydd eu cywirdeb
20. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch a’u rôl o ran lleihau risgiau i’r bysgodfa

## Geirfa

**Clefydau hysbysadwy**
Clefydau pysgod y mae angen rhoi gwybod i DEFRA/SERAD amdanynt

**Proffylactig**
Triniaeth ataliol

# Gweithredu rhaglenni ar gyfer pysgod sy'n rheoli triniaethau ac yn cynnal eu hiechyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFiM23 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Pysgodfa, Uwch Reolwr Pysgodfa, Swyddog Datblygu Pysgodfeydd |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; asgell; cynnal; iechyd; triniaeth |